# Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2 2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 10 : Adborth a chynllunio

Rhagor iaith
Peniarth .cymru
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

h.jones@pcydds.ac.uk

# Allwedd:



Drilio



Ymarfer ar lafar (yn unigol)



Tasg wrando



Gwaith pâr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r Portffolio

**Nod y ddarlith:**

- Adborth.
- Cynllunio gwers.

# Canmoliaeth a tharged

# Geiriau canmol





Eithaf da
Da iawn
Ardderchog
Bendigedig
Llongyfarchiadau
Rhagorol
Gwych

Gwaith gwych
Gwaith taclus
Gwaith bendigedig
Gwaith da
Gwaith rhagorol



Dim treiglad gan ei fod yn disgrifio enw gwrywaidd.

# Ymdrech dda



Treiglad meddal gan ei fod yn disgrifio enw benywaidd.

Gwell

Gwell o lawer



# Gorchmynion eto!



Dal ati!

Daliwch ati!

# Gorchmynion eto!



Ceisiwch eto!

Ceisia eto!



# Ymestyn....

Rydych chi’n gweithio’n **dd**a heddiw.

Rwyt ti’n gweithio’n **dd**a heddiw.



Rydych chi wedi gweithio'n dda heddiw.

Rwyt ti wedi gweithio'n dda heddiw.



Diolch am dy waith caled!

Diolch am eich gwaith caled!



# YMESTYN





# Dylech chi...

You should...

# Dylet ti...

...ganolbwyntio.



...wirio dy waith.



...ofyn am help.



...ganolbwyntio.



# Dylech chi...

...wirio eich gwaith.



...ofyn am help.



# Treiglad Meddal

canolbwyntio → ganolbwyntio
gwirio → _wirio
gofyn → _ofyn

Hoffwn i = I would like

Hoffwn i i chi... = I would like you to





# Hoffwn i i ti...

...ganolbwyntio.

...wirio dy waith.

...ofyn am help.



# Hoffwn i i chi...

...ganolbwyntio.

..wirio eich gwaith.

...ofyn am help.

# Rhaid i adborth effeithiol fod yn ...

ddealladwy.

galonogol.

adeiladol.

glir.

gywir.

amserol.

gyson.

# Pwrpas rhoi adborth ydy...

gwneud i ddysgwyr feddwl.

helpu'r dysgwr i ddeall y gwaith yn well.

canmol ymdrech

cyfeirio at y meini prawf llwyddiant.

helpu'r dysgwr i wneud cynnydd.

dangos sut mae symud ymlaen.

helpu'r dysgwr i werthuso.

# Cyfle i drafod: Dulliau asesu.



Beth ydy'ch

profiadau chi?

## Marcio

Dylai adborth cadarnhaol a chyson gryfhau cymhelliant y disgyblion. Wrth farcio ni ddylid gor-gywiro, mae hyn yn tanseilio hyder yr unigolyn. Rhaid canolbwyntio ar gywiro rhai gwallau ar y tro. Rhaid meddwl felly am y gwallau yn nhrefn blaenoriaeth ac yn unol â gallu'r disgybl. Gellir defnyddio llythrennau neu symbolau yn ymyl y ddalen neu ar y gwaith ei hun sy'n ddealladwy i'r disgyblion ac yn unol â pholisi marcio'r ysgol/adran.

Wrth ddrafftio gwaith gall disgyblion farcio eu gwaith unigol ynghyd â gwaith eu cyfoedion yn adeiladol. Bydd hyn yn eu gwneud yn llai dibynnol ar yr athro/athrawes ac yn meithrin cyfrifoldeb dros gywirdeb ieithyddol. Bydd y disgybl felly yn fwy tebygol o sylwi ar y cywiro. Anogir iddynt wneud hyn drwy ddefnyddio pensil.

### Côd Marcio

| | |
|---|---|
| S / | Cam sillafu (geiriau syml a thermau pynciol) |
| | Atalnodi (atalnod llawn, priflythrennau) |
| P // | Paragraff newydd |
| Uwcholeuo | Ail ysgrifennu un frawddeg flêr |
| Cyst / | Gwall cystrawen |
| Tr | Cam dreiglad: gosod bwa rhwng dau air i ddynodi'r treiglad, e.e. fy gwaith |
| ( ) | Berf anghywir |
| I.S. | Idiom Saesneg |
| G.S. | Gair Saesneg |
| ✓✓ | Sylwadau da |

'Gair yn Gymorth' golygwyd gan Manon Wyn Siôn

# Cyfle i drafod: Rhannu arferion da

**Arferion da**

- Annog disgyblion i wirio a golygu eu gwaith eu hunain/cyfoedion cyn ei gyflwyno i'r athro
- Uwcholeuo 5 gwall i'w cywiro
- Gwneud un dymuniad ieithyddol wrth ddilyn polisi Dwy Seren a Dymuniad
- Defnyddio Cysill
- Ail ysgrifennu un frawddeg flêr

'Gair yn Gymorth' golygwyd gan Manon Wyn Siôn

# Adborth.



Tynnu sylw at y meini prawf llwyddiant

# Adborth.



Rhoi adborth ar lafar?

# Adborth.

Adborth ysgrifenedig

# Adborth.



Canolbwyntio ar adran o'r gwaith e.e. blwch melyn

# Adborth.



Adborth dosbarth cyfan ar un daflen

# Adborth.

Kahoot!

Tasgau cystadleuol

# Adborth.



Cwestiynu'n effeithiol

## 3. Rhoi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig yn cynnwys targedau ystyrlon unigol:

Mae angen i'r adborth llafar ac ysgrifenedig gynnwys sylwadau adeiladol sy'n nodi cryfderau a thargedau penodol ar sut i wella mewn iaith addas i allu'r disgybl. Dylai'r sylwadau fod yn seiliedig ar yr amcanion dysgu a'r meini prawf a osodwyd a dylid rhoi amser digonol i ddisgyblion ystyried y sylwadau a wnaed, gwneud cywiriadau a defnyddio'r adborth er mwyn gwella eu gwaith.

### Iaith Dargedu

Rhan annatod o'r broses gosod targedau yw bod yr athro yn gosod targedau i sicrhau cynnydd yng ngwaith y disgybl.

**Berfau Perthnasol Targedu (i'r athro)**

**Modd Gorchmynnol**

| Ffurfiau cwmpasog | Ffurfiau cryno (Ti) |
|---|---|
| Mae'n rhaid i ti ddarllen | Darllena |
| Mae'n rhaid i ti ysgrifennu | Ysgrifenna |
| Mae'n rhaid i ti esbonio | Esbonia |
| Mae angen i ti sicrhau | Sicrha dy fod yn … |
| Mae angen i ti drefnu | Trefna dy waith … |
| Mae angen i ti adolygu | Adolyga'n drwyadl … |
| Mae angen i it geisio | Ceisia |
| Mae angen i ti wirio | Gwiria |

'Gair yn Gymorth' golygwyd gan Manon Wyn Siôn

# Trafodwch …

Mae cynllunio ffocws iaith clir yn berthnasol i wersi Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'n unig.

Ydych chi'n cytuno?

# Mae modd cynllunio ffocws iaith i unrhyw wers. Beth am ystyried ….?

- Pa batrwm iaith sy'n cefnogi nod y wers (mewn unrhyw Faes Dysgu a Phrofiad), e.e. geirfa allweddol; patrwm cwestiwn ac ateb;  dechreuadau brawddegau; testun estynedig, a.y.y.b.?

- Oes ffocws iaith i bob tasg?

- Beth fydd adeiladwaith y wers (h.y. i gyrraedd y nod terfynol)?

- Sut byddwch chi'n gwahaniaethu o fewn y dosbarth?

# Cynllun Gwers

**Blwyddyn**:
Cynradd – Blwyddyn 2 - Cyfrwng Cymraeg

**Maes Dysgu a Phrofiad**:
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Nod y wers**:
Suddo neu arnofio?

## Gwybodaeth flaenorol:

- Bod gwrthrychau wedi cael eu gwneud o ddeunyddiau gwahanol.
- Bod gwrthrychau'n gallu bod yn drwm neu'n ysgafn.
- Medru defnyddio ansoddeiriau wrth ddisgrifio.

## Adnoddau:

- Gwrthrychau gwahanol, e.e. carreg fach, marblen, potel blastig, papur, brigyn, band elastig, llwy, ceiniog, siswrn, clip papur, gwelltyn, pensil, deilen
- Twba dŵr (yn ddelfrydol gydag ochrau tryloyw)

**Geirfa allweddol:**

- Ansoddeiriau, e.e. meddal, caled, llyfn, garw, ysgafn, trwm, a.y.y.b.
- suddo
- arnofio

**Ffocws iaith**:
Cyflwyniad: Beth ydy hwn / hon?
**Wrth ragfynegi:**
Ydy'r ______ **yn mynd** i suddo / arnofio?
Patrwm ateb: Ydy / Nac ydy.
Patrwm i'w osgoi: Ie / Na
**Wrth drafod canlyniadau:**
Ydy'r ______ **yn** arnofio / suddo?
Patrwm ateb:
Ydy, mae'r _______ yn arnofio.
Nac ydy, dydy'r _______ ddim yn arnofio.
Patrwm i'w osgoi: Ie / Na

## Gweithgareddau:

- Bydd y gwrthrychau'n cael eu rhoi mewn blwch teimlo. Bydd cyfle iddynt deimlo'r gwrthrych, ei ddisgrifio (defnyddio ansoddeiriau addas, e.e. meddal, caled, llyfn, garw, ysgafn, trwm, a.y.y.b.) cyn dyfalu beth ydy'r gwrthrych (ffordd dda i ennyn diddordeb).
- Bydd gan bob aelod o'r grŵp wrthrych. Bydd angen sicrhau bod pawb yn gwybod beth ydy enw pob gwrthrych.
- Bydd cyfle i ragfynegi – Ydy'r ______ yn mynd i arnofio?
- Bydd cyfle i wneud yr arbrawf drwy roi'r gwrthrychau yn y dŵr.
- Ffocws iaith: Ydy'r _____ yn arnofio / suddo? Ydy / Nac ydy .....
- Trafodir eu canfyddiadau drwy ystyried "Pam?"

# Pa fethodolegau caffael a datblygu iaith fydd fwyaf addas i'r wers?

Ydych chi'n cofio rhain?



# Pa fethodolegau caffael a datblygu iaith fydd fwyaf addas i'r wers?

- Pa weithgareddau cynhesu fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Oes tasgau gwrando / llafar / darllen / ysgrifennu? Pa rai fyddwch chi'n eu cynllunio?
- Pa eirfa / batrymau iaith fyddwch chi'n eu drilio?  Sut?
- Pa gemau iaith fedrwch chi eu chwarae?
- Oes angen mat iaith i'w cefnogi?

# Eich tro chi…

| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a Lles** | **Y Dyniaethau** |
|---|---|---|
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **Mathemateg a Rhifedd** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** |

# Cynllun Gwers

<table>
<tr><td>Blwyddyn:</td><td>Maes Dysgu a Phrofiad:</td><td>Nod y wers:</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth flaenorol:</td><td rowspan="2">Geirfa allweddol:<br><br>Ffocws iaith:</td><td rowspan="2">Gweithgareddau:</td></tr>
<tr><td>Adnoddau:</td></tr>
</table>

# Gwaith pâr:

Mewn parau, yn seiliedig ar destun llyfr ‘Cymru, y Byd a Ni’ :




- cynlluniwch wers sydd â ffocws iaith clir;
- cofiwch adolygu patrymau iaith a ddysgwyd yn flaenorol;
- cofiwch ddefnyddio methodolegau caffael iaith, e.e. drilio, canu, tasg wrando, chwarae gêm(au), gwaith pâr, gwaith grŵp, a.y.y.b.
- Oes angen Mat Iaith? Os oes angen, cynlluniwch Fat Iaith addas a defnyddiol.



**Modwl 10 credyd:**

- Portffolio yn cynnwys:
- Rhan 1:
- Recordiad o’r wers feicro (7.5 munud)
- Rhan 2: 1000 gair:
- Cynllun gwers
- Adnoddau
- Gwerthusiad o’r wers

- *Ffocws ar bedagogeg a strategaethau dysgu ac addysgu.

- Cyflwyniad a thaflenni asesu ar Moodle.

# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Tasg ysgrifennu



Grŵp o dri



Help llaw



Gwaith pâr


Pob
LWC